

Cofnodion



Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr D Wilcox (Cadeirydd), P Cockeram, G Giles, D Harvey, Councillor R Jeavons, D Mayer, J Mudd, Councillor R Truman and M Whitcutt

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

2 Datganiadau o Fuddiant

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill fel cofnod cywir.

4 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gam Lles y Cyngor i Gynnal ein ffocws ar adfywio canol y ddinas i ddod yn un o ddinasoedd gorau'r DU

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno adroddiad a chynllun gweithredu rheoli'r Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i'r Cabinet ar sut mae'r Cyngor yn gwreiddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gyflawni Amcan Llesiant y Cyngor *'Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wth ddiogelu'r amgylchedd' a'r cam i'r 'Cynnal ein ffocws ar adfywio canol y ddinas i ddod yn un o ddinasoedd gorau'r DU.'*

Nododd yr Arweinydd gefndir hyn a phwysleisiodd y pwyntiau canlynol:

- Yn 2015 cyflawnodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan alluogi pob corff cyhoeddus yng Nghymru i greu Cymru, a Chasnewydd, yr ydym i gyd eisiau byw ynddi nawr ac yn y dyfodol. Mae gan y weinyddiaeth hon uchelgais i fod yn un o'r dinasoedd gorau.
- Fel Cabinet a Chyngor effeithiol, mae angen sicrhau bod y penderfyniadau a wneir heddiw yn ystyried effaith cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

- Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ystyried datblygu cynaliadwy a sicrhau trwy gydol holl weithgareddau a phenderfyniadau'r Cyngor bod egwyddorion y pum ffordd. Mae gwaith yn cael ei ystyried: Hirdymor, Cydweithredu, Cyfranogiad, Atal ac Integreiddio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

- Mae gan Gynllun Corfforaethol 2017-22 bedwar Amcan Lles a'r Camau a gymerir i gyflawni'r amcanion hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018-23 a'r Ddeddf Llesiant.
- Archwiliodd yr adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i ba raddau y mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithredu yn unol â'r Ddeddf Llesiant a sut mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r pum ffordd o weithio i gyflawni'r Amcanion a'r Camau Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol.

Nododd yr Arweinydd grynodedeb o'r canfyddiadau a gynhwysir yn yr adroddiad, sef:

- *'Wrth gymryd camau i adfywio canol y ddinas, mae gan y Cyngor lawer o enghreifftiau cadarnhaol o sut y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy (SDP). Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud iddo wreiddio'r pum ffordd o weithio yn gyson ar draws ei uchelgeisiau ar gyfer adfywio canol y ddinas.'*

Nododd yr Arweinydd y pwysau enfawr a roddwyd ar staff i weithredu hyn o fewn yr awdurdod a chroesawodd yr Arweinydd ganfyddiadau'r adroddiad;

Yn y degawd o gyni i dderbyn canlyniad mor gadarnhaol yn destament i aelodau a swyddogion fel ei gilydd.

Yn eu hadroddiad, cydnabu SAC y gwaith a gymerwyd i wreiddio egwyddorion y pum ffordd o weithio i brosesau gwneud penderfyniadau, yn arbennig:

- Sut y bydd Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor yn galluogi cyfle i ymestyn gweledigaeth tymor hwy ar gyfer y ddinas 20 mlynedd a thu hwnt;
- Y ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio data cyfredol a rhagamcanol i wella ei ddealltwriaeth o fesurau ataliol a sut y gellir defnyddio hyn i wella ei ddyheadau amgylcheddol hirdymor ar gyfer canol y ddinas;
- Mae'r Cyngor yn defnyddio ei safle i gydweithio ac integreiddio â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r cyfleoedd sydd gan y Cyngor i adeiladu ar y trefniadau hyn;
- Mae'r gwelliannau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud i gynnwys dinasysdion, busnesau a rhanddeiliaid eraill yn y broses o wneud penderfyniadau a'r angen i adeiladu ar ei ddull o sicrhau bod amrywiaeth lawn y ddinas yn cael ei chipio yn y prosesau hyn.

O ganlyniad i'r canfyddiadau nododd yr adroddiad ddeg *'meysydd ar gyfer datblygu'* i helpu i ymgorffori'r pum ffordd o egwyddorion gweithio ymhellach i lywodraethu a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Nododd yr Arweinydd fod ymatebion rheoli wedi'u darparu i Swyddfa Archwilio Cymru ar sut y bydd y Cyngor yn gweithredu ac yn cyflawni gwelliannau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, sydd hefyd wedi'i ystyried gan Graffu.

I gloi, gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet nodi canlyniadau'r adroddiad o Swyddfa Archwilio Cymru ac i sicrhau fel Cabinet y bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu ar weithredu camau rheoli a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol ym mhob maes gwasanaeth.

Atgyfnerthodd y Cabinet sylwadau cadarnhaol yr Arweinydd a chanmolodd yr adroddiad.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar ganlyniadau'r adroddiad a gofynnodd am gael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y gwasanaeth gan weithredu'r camau rheoli angenrheidiol.

5 Adroddiad Diogelu Corfforaethol

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd mai hwn yw'r ail adroddiad Diogelu blynyddol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd sy'n manylu ar y perfformiad presennol o fewn gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag arferion diogelu a phartneriaid diogelu ehangach gan gynnwys y Ddeddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gofynion y Cyngor.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Cabinet adolygu cynnydd cynlluniau gwaith blaenoriaeth allweddol ar gyfer trefniadau diogelu corfforaethol a thimau diogelu penodol. Nodwyd y bydd y gwaith a amlygwyd yn yr adroddiad yn galluogi'r Cyngor i dyfu a sicrhau bod diogelu yn 'fusnes pawb' ac yn rhan o bob gwasanaeth y Cyngor a ddarperir i ddinasyddion Casnewydd.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol glod i'r Tîm Diogelu a chadarnhaodd, er bod y neges hon bellach wedi'i hymgorffori er bod yn rhaid trosglwyddo'r neges i'r cyhoedd nawr. Soniwyd am yr Hyb Peilot a'r canlyniadau da a ddaw o wasanaethau cydgysylltiedig ac arferion gwaith da.

Gofynnodd yr Arweinydd am roi rhywfaint o ystyriaeth i ddarparu Gwobrau Gofalwyr Ifanc.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet i barhau i ddatblygu arferion diogelu corfforaethol ym mhob gwasanaeth ar draws y Cyngor er mwyn galluogi'r Cyngor i dyfu a sicrhau bod diogelu yn 'fusnes pawb' ac yn rhan o bob gwasanaeth y Cyngor a ddarperir i ddinasyddion Casnewydd.

6 Alldro Cyllideb Refeniw 2018/19

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyllideb refeniw 2018/19.

Cydnabu'r Arweinydd ymdrech y sefydliad cyfan i gyflawni'r alldro mewn modd amserol a oedd wedi arwain at gau'r cyfrifon yn yr amserlen orau erioed er mwyn sicrhau bod y cyfrifon blynyddol statudol yn cael eu cyhoeddi'n gynharach, a fydd yn rhoi'r gallu i ystyried y sefyllfa a gwneud penderfyniadau yn gynharach nag yn y blynyddoedd diwethaf.

Cadarnhaodd yr adroddiad danwariant o tua £2.3m, mae hyn yn cynrychioli amrywiant bach o ddim ond 1.3% ar y gyllideb net. Mae'r ffigwr ychydig yn fwy na'r rhagolwg o £1.6m sy'n rhannol oherwydd grantiau hwyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a rhywfaint o wariant is mewn ychydig o feysydd (fel y manylir yn y tabl ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad). Mae'r tabl hefyd yn cadarnhau tua £1.8m o incwm untro, annisgwyl, di-wasanaeth o TAW ac ad-daliadau ardrethi a oedd, o'u cymryd i ystyriaeth, yn creu sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

Dangosodd yr adroddiad batrwm o orwario yn y meysydd allweddol a arweiniwyd gan y galw a thanwariant yn y meysydd cyllideb nad ydynt yn wasanaethau, sydd o ganlyniad i well

incwm a defnydd gwell o arian wrth gefn. Yn ogystal, roedd rhai materion i'w datrys mewn nifer fach iawn o ysgolion sy'n cael sylw. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod mwyafrif helaeth gweithgareddau'r Cyngor yn gwario yn agos at y gyllideb ac mae'r heriau mewn nifer fach iawn o feysydd sy'n gyffredin i bron pob Cyngor ledled y DU.

Roedd gorwariant yn y meysydd a arweinir gan y galw yn cyfateb i oddeutu £5m ac mae buddsoddiad tebyg i'r swm hwnnw wedi'i fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unol â blaenoriaethau'r weinyddiaeth.

O ran tanwariant o £2.3m - roedd yr adroddiad yn argymhell sut y gellid clustnodi'r tanwariant - y cyfeirir ato ym mharagraff 6.1, o'r adroddiad. Ychydig o eitemau i'w hamlygu oedd:

- (i) Roedd y Cabinet, ar ôl ystyried ailddatblygiad Tŵr y Siartwyr yn flaenorol a'r angen i ddarparu cymorth pellach i sicrhau bod yr ailddatblygiad yn llwyddiant o ran sut mae canol y ddinas yn edrych, wedi cytuno i ddefnyddio £950k o'r tanwariant er mwyn gosod cladid i wella golwg yr adeilad;
- (ii) Mae ymrwymiad i gefnogi'r gwasanaeth SENCOM rhanbarthol wrth iddo gael ei adolygu eleni ac mae'r £250k o gyllid a argymhellir yn caniatáu i'r cyllid barhau ar lefelau blaenorol tra bod yr adolygiad hwnnw'n cael ei gynnal. Fodd bynnag, tynnodd yr Arweinydd sylw'r Cabinet at y newyddion bod cyfraniad y Cyngor wedi gostwng eleni, o'i gymharu â'r llynedd, a gellir lleihau'r swm hwn i £190k nawr. Argymhellodd yr Arweinydd roi'r £60k y mae hyn yn eu rhyddhau yn y Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- (iii) Er mwyn cadw â'r momentwm ar ddenu a chynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn y ddinas, fel y Marathon, argymhellodd yr adroddiad fuddsoddi £150k mewn cronfa wrth gefn i'w wario ar y math hwn o weithgaredd yn y dyfodol.

Llongyfarchodd yr Arweinydd y Dirprwy Arweinydd am ei gyflawniadau yn y ras 10k ac am godi £1K i elusen.

Mae'r tanwariant o'r llynedd yn cael ei ddefnyddio fel gwariant ychwanegol eleni, er budd y ddinas a'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad. Nodwyd, er bod mwyafrif llethol y galw y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a'r arwyddocâd ariannol enfawr sy'n gysylltiedig â hynny, mae'r adroddiad hwn yn dangos rheolaeth ariannol dda wrth wynebu pwysau galw enfawr tra'n dal i lwyddo i nodi un o'r cyfraddau treth gyngor isaf yn y DU.

Diolchodd yr Arweinydd unwaith eto i'r swyddogion am ddarparu rheolaeth ariannol dda mewn blwyddyn heriol. Gofynnwyd i'r Cabinet:

- a) Sylwch ar y sefyllfa alldro, sy'n destun archwiliad a'r amrywiadau mawr ar gyfer y flwyddyn (Adran 1-3 yr adroddiad); wrth nodi newid bach lleihau cronfa SENCOM i £190k a rhoi £60k arall yn y Buddsoddi i Arbed;
- b) Cymeradwyo'r defnydd o'r tanwariant fel y nodir yn Adran 6 yr adroddiad a nodi lefel ddilynol cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chlustnodedig y Cyngor;
- c) Nodi alldro yr ysgol a'r sefyllfa ar gronfeydd wrth gefn yr unigolyn a chyfanswm yr ysgol a nodi/gwneud sylwadau ar y camau nesaf yn y maes hwn yn adran 3 yr adroddiad;
- d) Nodi'r meysydd eraill o bwysau a heriau'r gyllideb yn adran 1 a 2 yr adroddiad a nodi/sylwadau ar y camau sydd ar waith ar hyn o bryd i reoli'r rhain.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet i dderbyn argymhellion swyddogion a throsglwyddo'r tanwariant i gronfeydd wrth gefn penodol a glustnodir.

7 Rhaglen Waith

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

Penderfyniad:

Cytuno ar y rhaglen arfaethedig.

8 Unrhyw Fater Arall

Clwb Pêl-droed Casnewydd

Dymunai'r Arweinydd ddymuniadau gorau a phob lwc i Glwb Pêl-droed Sir Casnewydd yn eu gêm ail gyfle am ddyrchafiad ddydd Sadwrn. Cytunodd y Cabinet fod y clwb yn genhadon gwych i'r Ddinas.

9 Rhaglen Waith

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 19 Mehefin 2019, am 4.00 pm yn Ystafell Bwyllgor 1, yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd.